Eco-Tots Cymru

# Chwarae Pridd



## Amcanion dysgu:

Bydd y plant yn archwilio gwead, arogl a theimlad pridd a pherlysiau gan ddefnyddio eu synhwyrau.

Bydd y plant yn dechrau deall bod planhigion yn tyfu o'r pridd a bod angen gofalu amdanynt, eu trin yn dyner, rhoi dŵr iddynt a haul.

Bydd y plant yn datblygu sgiliau corfforol cynnar trwy rofio, llenwi, tipio a tharo'n ysgafn gyda'u dwylo ac offer syml.

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy
The Moondance Foundation
Dechrau o Hedyn

## Gwybodaeth ymarferydd:

Mae profiadau pridd a thyfu yn werthfawr i fabanod a phlant bach am eu bod yn cynnig dysgu synhwyraidd cyfoethog trwy gyffwrdd, aroglu ac arsylwi'n fanwl, tra hefyd yn cyflwyno dealltwriaeth gynnar o'r byd naturiol a'r ffordd y mae pethau'n tyfu.

Mae garddio a chwarae pridd yn cefnogi chwilfrydedd, datblygiad echddygol manwl a bras, iaith gynnar, a theimlad o ofalu am bethau byw.

Mae archwilio synhwyraidd gyda deunyddiau naturiol yn cael ei gydnabod yn eang fel rhywbeth buddiol yn y blynyddoedd cynnar. Mae gweithgareddau garddio hefyd yn helpu plant ifanc i ddatblygu cysylltiadau gyda natur trwy brofiadau ymarferol, ystyrlon.

## Ar gyfer y gweithgaredd hwn bydd angen

- Hambwrdd twff
- Compost neu fwyd diogel amgen fel Weetabix, ceirch, grawnfwyd mâl neu fusgedi mâl
- Perlysiau ffres fel mintys, rhosmari neu basil
- Rhawiau neu sgwpiau
- Potiau planhigion bach
- Cadach ar gyfer glanhau'n hawdd
- Pryfed tegan neu hadau mawr fel hadau pwmpen neu flodyn haul (dewisol)



Eco-Tots Cymru

## Gweithgaredd

Gosodwch hambwrdd twff gyda haenen fas o bridd, detholiad o berlysiau ffres, rhawiau maint plentyn a photiau planhigion bach.

Anogwch y plant i gyffwrdd, sgwpio, taro’n ysgafn a llenwi wrth iddynt archwilio arogl a gwead y deunyddiau.

Gall yr ymarferwyr ddangos esiampl o iaith syml fel “pridd,” “pot,” “deilen,” a “tyfu,” tra’n cefnogi plant i archwilio ar eu cyflymder eu hunain.

Ar gyfer plant ifanc iawn sydd yn dal i roi pethau yn eu ceg, cynigiwch ddewis blasu amgen fel Weetabix mâl, ceirch, grawnfwyd mâl neu sylfaen synhwyraidd bwytadwy arall yn lle pridd.

